



WALES **AUDIT** OFFICE
SWYDDFA **ARCHWILIO** CYMRU

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2011

Bwrdd Iechyd Hywel Dda

Cyhoeddwyd: Rhagfyr 2011

Cyfeirnod y ddogfen: 630A2011

Statws yr adroddiad

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Richard Harries,
Geraint Norman a Tracey Davies ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Bwrdd Iechyd Hywel Dda fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Yr adroddiad hwn	6
Archwilio'r cyfrifon	7
Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny	7
Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau	11
At ei gilydd, gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Asesiad Strwythuredig yn 2010, er bod heriau arbennig yn parhau, yn enwedig o ran y sefyllfa ariannol a rheoli gwybodaeth a thechnoleg	12
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei ddull presennol o gynnal adolygiadau o gynlluniau swyddi yn ddigon cadarn eto, ac er bod cynnydd yn cael ei wneud, nid yw rhai o fuddion bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol wedi'u gwireddu'n llawn	17
Er bod gwella perfformiad theatr a pherfformiad llawdriniaeth dydd yn dod yn fwy o flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, mae angen gweithredu pwrpasol i wella ansawdd gwybodaeth theatr, i fynd i'r afael â meysydd perfformiad salach ac i ymateb i bryderon a godir gan staff	18
Mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol yn ymwneud â'r Gyfarwydeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a gwasanaethau mamolaeth, er bod angen cynnydd pellach mewn sawl maes	19
Atodiadau	
Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf	22
Ffi archwilio	23

Adroddiad cryno

1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'r gwaith archwilio rwyf wedi'i gyflawni ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda (Y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2011.
2. Mae'r gwaith rwyf wedi'i wneud yn y Bwrdd Iechyd yn fy ngalluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.
3. Mae fy ngwaith archwilio wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol yn ogystal â risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Ceir mwy o fanylion am yr agweddau penodol ar fy archwiliad yn yr adroddiadau ar wahân a gyflwynwyd gennyf yn ystod y flwyddyn. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod a'u cytuno gyda swyddogion a'u cyflwyno i Bwyllgor perthnasol y Bwrdd. Dangosir yr adroddiadau yr wyf wedi'u cyflwyno yn Atodiad 1.
4. Crynhoir y negeseuon allweddol o'm gwaith archwilio o dan y penawdau canlynol.

Archwilio'r cyfrifon

5. Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er wrth wneud hynny rwyf wedi tynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater. Rwyf hefyd wedi dod i'r casgliadau canlynol:
 - paratowyd datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol;
 - roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau'r risg o gamdatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; ac
 - roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o wendidau system y mae angen i reolwyr weithredu arnynt.
6. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gwrdd â'i dargedau ariannol statudol yn 2010-11 trwy amrywiaeth o arbedion drwy gyfyngiant costau ac arbedion effeithlonrwydd. Hefyd, derbyniodd y Bwrdd Iechyd adnoddau anghylchol o £43 miliwn yn ystod y flwyddyn a'i galluogodd i fantoli'r gyllideb.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau

7. Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Mae fy ngwaith wedi cynnwys mesur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu ymhellach a nodwyd fel rhan o waith Aseiad Strwythuredig y llynedd. Cynhaliwyd adolygiadau archwilio perfformiad hefyd ar feysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Mae'r gwaith hwn wedi fy arwain at y casgliadau canlynol:
 - at ei gilydd, gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn fy Aseiad Strwythuredig yn 2010, er bod heriau arbennig yn parhau, yn enwedig o ran y sefyllfa ariannol a rheoli gwybodaeth a thechnoleg;

-
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad oedd ei ddull presennol o gynnal adolygiadau o gynlluniau swyddi yn ddigon cadarn eto, ac er bod cynnydd yn cael ei wneud, nid oedd rhai o fuddion contractau meddygon ymgynghorol wedi'u gwireddu'n llawn;
 - er bod gwella perfformiad theatr a pherfformiad llawdriniaeth dydd yn dod yn fwy o flaenoriaeth i'r Bwrdd, mae angen gweithredu pwrpasol i wella ansawdd gwybodaeth theatr, i fynd i'r afael â meysydd perfformiad salach ac i ymateb i bryderon a godir gan staff; a
 - mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol, er bod angen cynnydd pellach mewn sawl maes.

Cytuno ar fy nghanfyddiadau gyda'r Tîm Gweithredol

8. Cytunwyd ar yr adroddiad hwn gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Caiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Ionawr 2012, a rhoddir copi i bob aelod o'r Bwrdd Iechyd. Anogwn y Bwrdd Iechyd yn gadarn i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, bydd yr adroddiad hefyd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru (www.wao.gov.uk).
9. Hoffwn ddiolch yn fawr i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.

Adroddiad manwl

Yr adroddiad hwn

10. Mae'r Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yn nodi canfyddiadau allweddol y gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2010 a mis Hydref 2011. Ymgymeraf â'm gwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodwyd yn Neddf 2004, sy'n ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - bodloni fy hun yr aed i'r gwariant y mae'r cyfrifon yn ymwneud ag ef yn gyfreithlon ac yn unol â'r awdurdodau sy'n ei lywodraethu; a
 - bodloni fy hun bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.
11. Mewn perthynas â **(c)**, rwyf wedi dod i gasgliadau pendant, neu fel arall, gan ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm Hasesiad Strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliodd y trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu ac atebolrwydd, a rheoli adnoddau;
 - hunanasesiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru;
 - archwiliadau archwilio perfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle maent yn berthnasol i'm cyfrifoldebau i; a
 - gwaith arall, fel ymarferion cydweddu data ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
12. Rwyf wedi cyflwyno nifer o adroddiadau i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn; rhestrir y rhain yn Atodiad 1.
13. Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- archwilio cyfrifon; a
 - threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio adnoddau.
14. Yn olaf, mae Atodiad 2 yn rhoi'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen i mi ei chodi i dalu am gostau gwirioneddol cyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ynghyd â'r ffi wreiddiol a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad.

Archwilio'r cyfrifon

15. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2010-11. Mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol drwy'r datganiadau hyn ac yn nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian parod. Mae paratoi datganiadau ariannol sefydliad yn rhan hanfodol o ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod yn briodol.

Fy nghyfrifoldebau

16. Wrth archwilio datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi barn ar y canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant am y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol – a achoswyd drwy dwyll neu wall;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w archwilio wedi'i pharatoi'n briodol; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm.
17. Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).
18. Wrth ymgymryd â'r gwaith hwn, mae archwilwyr hefyd wedi ystyried digonolrwydd y canlynol:
- amgylchedd rheolaeth fewnol y Bwrdd Iechyd; a
 - systemau ariannol ar gyfer llunio'r datganiadau ariannol.

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar ddatganiadau ariannol 2010-11 y Bwrdd Iechyd, er i mi dynnu sylw swyddogion, y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd at sawl mater wrth wneud hynny

Paratowyd cyfrifon y Bwrdd Iechyd yn briodol ac roeddent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol er bod rhyw £3 miliwn o gamddatganiadau heb eu cywiro

19. Cyflwynwyd y datganiadau ariannol drafft cyn y terfyn amser, sef 5 Mai 2011. Paratowyd y datganiadau ariannol i safon dda ac fe'u hategwyd yn gyffredinol gan bapurau gwaith o ansawdd da. Roedd hyn yn gyflawniad sylweddol gan fod yr amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru wedi golygu bod llai o amser ar gael i lunio ac archwilio'r cyfrifon, gan roi cryn dipyn o bwysau ychwanegol ar y tîm cyllid.

20. Mae'n ofynnol i mi yn unol ag ISA 260 gyflwyno adroddiad ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu cyn i mi roi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Cyflwynodd fy Rheolwr ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad ar y materion hyn i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd lechyd ac i'r Bwrdd ar 7 Mehefin 2011.
21. Nododd ein harchwiliad nifer o gamgymeriadau amherthnasol a oedd yn gywir yn y fersiwn derfynol o'r datganiadau ariannol. Roedd, serch hynny, ryw £3 miliwn o gamddatganiadau yr awgrymon y dylid eu diwygio, ond penderfynodd y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio na ddylid eu diwygio o ystyried eu bod wedi gostwng gwariant net yn erbyn y terfyn adnoddau, ac na chafodd unrhyw effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol. Nodir y camddatganiadau heb eu cywiro hyn yn Arddangosyn 1.

Arddangosyn 1: camddatganiadau heb eu cywiro yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau ariannol

Mater	Sylwadau'r Archwilydd
Darpariaeth yr Ombwdsmon ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus	Roedd gwariant yn cynnwys darpariaeth achosion yr Ombwdsmon ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus o ryw £7.1 miliwn. Roedd ein profion yn awgrymu bod y ddarpariaeth £7.1 miliwn wedi'i gorddatgan o ryw £0.5 miliwn. Deilliodd y camddatganiad hwn am nad oedd cronfa ddata achosion yr Ombwdsmon ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus wedi'i diweddaru, ac o ganlyniad i hyn roedd y ddarpariaeth yn cynnwys hawliadau Gofal Iechyd Parhaus yn erbyn y Bwrdd Iechyd a dynnwyd yn ôl yn ystod y flwyddyn, ynghyd â hawliadau a oedd wedi'u penderfynu neu'u gwrthod gan y Panel a wrandawodd yr achosion.
Croniadau Gofal Iechyd Parhaus	Gorddatganwyd y cronriad o £6.2 miliwn o ryw £1.3 miliwn. Deilliodd y rhan fwyaf o'r camddatganiad hwn am y cronnyd ar gyfer rhai achosion at ddiwedd y flwyddyn pan oedd cyllid eisoes wedi dod i ben neu wedi'i leihau'n sylweddol. Hefyd, cam-ddatganwyd y cronriad o £1 filiwn arall am fod 'costau ymadael' wedi'u cronni ond nid oes unrhyw dystiolaeth o rwymedigaeth gyfreithiol ar ddiwedd y flwyddyn.
Croniadau eraill	Nododd ein profion fod y cronriadau canlynol wedi'u gorddatgan: <ul style="list-style-type: none"> Rheoli cyflyrau cronig – £0.7 miliwn; a Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol – £0.25 miliwn.
Asedau sefydlog	Roedd ychwanegiadau asedau sefydlog yn cynnwys £0.5 miliwn o wariant refferiw. Yn ogystal, gwnaed cronriad o £1 filiwn ar gyfer sganiwr MRS ar ddiwedd y flwyddyn, ond nid oedd perchenogaeth wedi'i throsglwyddo i'r Bwrdd Iechyd felly ni ddylai fod wedi ei gronni.

-
22. Fel rhan o'm harchwiliad ariannol ymgymerais â'r adolygiadau canlynol hefyd:
- Ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan – deuthum i'r casgliad fod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2011, a pharatowyd y ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys; a
 - Datganiadau Ariannol Cryno a'r Adroddiad Blynyddol - deuthum i'r casgliad fod y datganiadau cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn.
23. Mae f'archwiliad o ddatganiadau ariannol y Gronfa Elusennol wedi'i gwblhau hefyd. Ar 29 Tachwedd 2011, rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol er bod angen gwneud mwy i wella systemau incwm yr Elusen ymhellach a lleihau lefel y cronfeydd wrth gefn.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd amgylchedd rheolaeth fewnol effeithiol i leihau risgiau o gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol

24. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn eich amgylchedd rheolaeth fewnol. At hynny, rhoddodd 'Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol' y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 sicrwydd digonol i'r Bwrdd Iechyd. Mae'r farn hon yn adlewyrchu system rheolaeth fewnol sy'n gadarn ar y cyfan sydd â graddau eang o gydymffurfiaeth weithredol, ond gyda rhai gwendidau o ran cynllunio a chymhwyso rheolaethau a allai beri risg o ran cyflawni amcanion system penodol.

Roedd systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli a'u gweithredu'n briodol, yn ôl y bwriad, er bod nifer o feysydd y mae angen i reolwyr weithredu arnynt

25. Ni nodais unrhyw wendidau perthnasol yn systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig y Bwrdd Iechyd a fyddai'n effeithio ar fy marn. Roedd nifer o faterion manwl yn codi o'm gwaith archwilio ariannol a chyflwynwyd adroddiad arnynt i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd ym mis Mehefin 2011. Mae'r rhain yn cynnwys materion y cyfeirir atynt yn Arddangosyn 1 uchod a nifer o faterion eraill, fel y'u nodir yn Arddangosyn 2.

Arddangosyn 2: Materion eraill sy'n ymwneud â systemau ariannol a chyfrifyddu pwysig yr adroddwyd amdanynt yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

System	Sylwadau'r Archwilydd
Rheolaeth gyllidebol	<p>Monitro cyllideb – mae trefniadau ar lefel sirol wedi gwella yn ystod y flwyddyn. Mae monitro islaw hyn yn parhau'n anffurfiol ac mae angen ei gryfhau er mwyn sicrhau bod deiliaid cyllidebau'n fwy atebol.</p> <p>Rhaglenni gwella costau – mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cynnydd da yn nodi arbedion cost, ond mae angen rhagor o waith i sicrhau bod rhaglenni gwella costau yn sicrhau'r arbedion gofynnol.</p>
Asedau sefydlog	<p>Dilysu asedau – mae angen i'r Bwrdd lechyd ymgymryd ag ymarferiad dilysu asedau llawn o'r holl asedau a sicrhau y delir teitl cyfreithiol.</p> <p>Gwarediadau – nid yw gweithdrefnau'r Bwrdd lechyd i sicrhau bod yr holl warediadau'n cael eu cofnodi ar ei gofrestr asedau yn gweithredu'n effeithiol. Mae'n amlwg o waith dilysu ffisegol nad yw gwarediadau'n cael eu cofnodi'n briodol.</p> <p>Peidio â chydabod – pan gaiff rhannau o asedau eu hamnewid, mae angen i unrhyw werth dros ben yr ased a amnewidiwyd gael ei dynnu allan o'r gofrestr asedau (peidio â'u cydnabod) ac mae angen cydnabod unrhyw elw neu golled fel incwm neu wariant.</p> <p>Nid oes system wedi'i ffurfioli gan y Bwrdd lechyd i nodi gwerthoedd felly yn gyson. Mae profion ychwanegol yn rhoi sicrwydd rhesymol i ni nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn natganiadau ariannol 2010-11.</p>
Gofal lechyd Parhaus	<p>Fel y nodwyd yn Arddangosyn 1, mae gennym bryderon ynglŷn â'r ffordd y mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei wariant Gofal lechyd Parhaus a chroniadau/darpariaethau diwedd blwyddyn. Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud mwy i gadarnhau cywirdeb y gronfa ddata ac mae angen gwella'r cyfathrebu gyda sefydliadau partner.</p>

26. Yn ogystal, adroddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol am nifer o wendidau mewn systemau y mae angen i reolwyr weithredu arnynt yn barhaus. Datblygwyd cynlluniau gweithredu i reolwyr er mwyn atgyfnerthu'r gwendidau rheoli a nodwyd yn yr adroddiadau hyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar y cynnydd a wneir.
27. Rydym hefyd wedi adolygu'r camau gweithredu gan y Bwrdd lechyd i fynd ar drywydd canfyddiadau'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cytuno ar gynllun clir ac mae cynnydd da wedi'i wneud o ran archwilio cydweddiadau posibl.

Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni balans ariannol ar ddiwedd 2010-11, o ganlyniad i gyllid anghylchol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a threfniadau rheoli ariannol cadarn a gyflawnodd arbedion sy'n rhyddhau arian parod

- 28.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ddealltwriaeth dda o'i incwm a'i wariant a'r diffyg sylfaenol o ran dyrannu adnoddau. Llwyddodd y Bwrdd Iechyd i gwrdd â'i dargedau ariannol statudol yn 2010-11 trwy amrywiaeth o arbedion drwy gyfyngiant costau ac arbedion effeithlonrwydd. Hefyd, derbyniodd y Bwrdd Iechyd adnoddau anghylchol o £43 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn a alluogodd y Bwrdd Iechyd i fantoli'r gyllideb.

Trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd o ran defnyddio adnoddau

- 29.** Mae gofyniad statudol arnaf i fodloni fy hun bod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:
- adolygu trefniadau rheolaeth ariannol y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys y cynnydd sy'n cael ei wneud i gyflawni cynlluniau arbed costau a'u cyfraniad at y broses o gyflawni balans ariannol;
 - asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r 'meysydd i'w datblygu' a nodwyd gennym yng ngwaith yr Asesiad Strwythuredig y llynedd;
 - asesu i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i sicrhau bod buddiannau contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni;
 - asesu i ba raddau y mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau ar waith i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o'i theatrau llawfeddygaeth; ac
 - asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan waith archwilio blaenorol ar y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau a Gwasanaethau Mamolaeth.
- 30.** Crynhoir y prif ganfyddiadau o'r gwaith hwn o dan y penawdau canlynol.

At ei gilydd, gwnaed cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2010, er bod heriau arbennig yn parhau, yn enwedig o ran y sefyllfa ariannol a rheoli gwybodaeth a thechnoleg

31. Rwyf wedi asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd lechyd o ran mynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu a nodwyd yng ngwaith Asesiad Strwythuredig y llynedd. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys trosolwg o drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd lechyd. Amlinellir y prif ganfyddiadau isod.

Mae'r Bwrdd lechyd yn parhau i ddatblygu trefniadau cadarn ar gyfer rheoli cyllideb a chynllunio ariannol

32. Mae'r Bwrdd lechyd wedi cyfuno cyllideb gyffredinol yn llwyddiannus yn seiliedig ar gyllideb y pedwar corff rhagflaenol. Mae'r Bwrdd lechyd wedi bod yn gweithio'n unol â 'chfansymiau rheoli gwariant' ar draws gwasanaethau i helpu i sicrhau ei fod yn aros o fewn ei derfyn adnoddau.
33. Mae'r Bwrdd lechyd yn rheoli ei gyllideb ar sail 'cyfansymiau rheoli' ar draws y sefydliad, sy'n adlewyrchu Cymorth Strategol Llywodraeth Cymru sy'n gostwng bob blwyddyn. Cytunwyd ar Gynllun Gwasanaeth, Gweithlu ac Ariannol ac mae aelodau'r Bwrdd wedi ymrwymo i'r cyllid tymor hwy sydd ar gael yn y cyllidebau.
34. Mae staff nad ydynt yn gweithio yn yr adran Gyllid yn cael eu cynnwys yn fwy erbyn hyn yn y broses o bennu cyllideb, ond ni chafwyd unrhyw gytundeb ffurfiol o gyllidebau gan siroedd.
35. Mae parch mawr i'r Tîm Cyllid ymhlith yr adrannau. Mae cymorth y tîm cyllid i adrannau'n werthfawr iawn yn enwedig o ran 'gweithdai'r setiau dysgu' sy'n helpu deiliaid cyllidebau i ddeall incwm a gwariant yn well.
36. Mae'r prosesau monitro cyllideb ac adrodd ar gyllideb yn gadarn ac mae'r broses adrodd wedi gwella. Gwelir monitro cyllideb fel rhan o reoli perfformiad sy'n cysylltu â thargedau perfformiad ac ansawdd.

Mae'r Bwrdd lechyd yn dal i wynebu heriau ariannol sylweddol yn y blynyddoedd presennol ac yn y dyfodol

37. Yn y blynyddoedd blaenorol, llwyddodd y Bwrdd lechyd i gwrdd â'i dargedau ariannol. Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, mae Cynlluniau Gwella Costau gwerth oddeutu £43 miliwn ar waith – er bod rhai cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni, fel Gofal lechyd Parhaus a chaffael, nid yw targedau eraill, fel Rheoli Meddyginiaethau a Moderneiddio'r Gweithlu, yn cael eu cyflawni. Hyd yn oed os cyflawnir y Cynlluniau Gwella Costau yn llawn, mae her gwerth £4 miliwn a fydd yn anodd cael gwared arni yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn, ac mae hynny'n creu risg sylweddol i'r Bwrdd lechyd, a risg sy'n cael ei hadolygu'n barhaus yn fewnol a gyda Llywodraeth Cymru.

-
38. Mae'r Bwrdd Iechyd yn glir bod angen gweithredu i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol sydd ohoni, ac y bydd angen cysoni cyllidebau yn y dyfodol gyda'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y cymer nifer o flynyddoedd i gyflawni hyn, ac mae'r lefel arbedion posibl yn y cynlluniau ariannol yn uchelgeisiol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu ac mae gwelliannau pellach ar y gweill. Fodd bynnag, mae capasiti a seilwaith Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg yn parhau'n risg gorfforaethol a gweithredol sylweddol

39. Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd i gryfhau ei drefniadau llywodraethu wedi canfod y canlynol:

Drwy ymgysylltu cadarn â rhanddeiliaid clinigol ac allanol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Strategaeth Gwasanaethau Clinigol graff

40. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweld newid strategol fel galluogwr pwysig i fynd i'r afael â materion heriol o ran ad-drefnu gwasanaethau a sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol. O ganlyniad, mae wedi buddsoddi cryn amser ac ymdrech i ddatblygu a chytuno'r strategaeth gwasanaethau clinigol. Mae ymgysylltu clinigol wedi bod yn allweddol o ran llywio a chytuno'r strategaeth, a gwelwyd ymgysylltu lleol cadarn â rhanddeiliaid allanol allweddol, gan gynnwys y Cynghorau Iechyd Cymuned.
41. Wrth fynd â'r weledigaeth strategol hon yn ei blaen, mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd y misoedd nesaf yn dyngedfennol, ac i gefnogi hyn mae wedi datblygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â rheoli'r newid yn y gwasanaethau, mae wedi datblygu cynllun ymgynghori clir ac wedi sefydlu Bwrdd Pontio.

Mae newidiadau'n cael eu gwneud i gryfhau arweinyddiaeth glinigol gorfforaethol a lleihau gweithio seilo

42. Cafwyd buddion amlwg i weithio ar sail ardaloedd yn enwedig o ran gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, cydnabu'r Bwrdd Iechyd fod y strwythur trefniadol wedi gwanhau'r arweinyddiaeth glinigol gorfforaethol, ac mae eisoes wedi gwneud newidiadau i fynd i'r afael â hyn.
43. Er bod mwy o eglurder erbyn hyn ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau, mae angen mwy o eglurder eto mewn nifer o feysydd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd atebolrwydd a chyfrifoldeb clir yn hollbwysig wrth fynd ymlaen os yw buddion y newidiadau cynlluniedig i'r arweinyddiaeth glinigol gorfforaethol i'w cyflawni.
44. Mae tystiolaeth fod y ganolfan gorfforaethol yn cefnogi siroedd a chyfarwyddiaethau i sicrhau'r canlyniadau gofynnol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod angen mwy o gymorth a datblygiad ar reolwyr canol, ac o ganlyniad mae wedi buddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth i helpu'r rheolwyr hyn i ddiwallu anghenion gwasanaeth yn llwyddiannus. Dylai'r 'uned cymorth cyflawni mewnol' arfaethedig helpu i gryfhau'r trefniadau ymhellach.

Mae'r Bwrdd yn effeithiol ac mae ganddo fframwaith llywodraethu cadarn, ond mae cyfleoedd eto i gryfhau'r modd y mae'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd

45. Mae cyfrifoldebau dirprwyedig wedi'u mapio'n glir ac mae'r Bwrdd yn mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio sgiliau ei swyddogion gweithredol ac aelodau annibynnol. Mae barnau aelodau'r Bwrdd wedi'u casglu a'u coladu drwy holiadur, ac maent yn cael eu defnyddio i lywio datblygiad y Bwrdd.
46. Mae'r strwythur pwyllgorau wedi aeddfedu yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae pwyllgorau yn canolbwyntio fwyfwy ar y materion priodol, ac mae ganddynt gydbwysedd da rhwng cost, ansawdd a diogelwch. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd lechyd yn mapio pob un o'i bwyllgorau er mwyn adolygu'u heffeithiolrwydd.
47. Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio adolygu ei gylch gorchwyl a'i raglen waith, a'r modd y mae'n darparu sicrwydd rheolaeth fewnol i'r Bwrdd, yn enwedig mewn meysydd fel archwilio clinigol a rheoli risg.

Mae mecanweithiau rheolaeth fewnol wedi'u cryfhau ac maent yn gadarn yn gyffredinol, er y gellid gwneud mwy i wella archwilio clinigol ac ymgorffori safonau gofal iechyd

48. Mae mecanweithiau rheolaeth fewnol wedi'u cryfhau ac maent yn gadarn yn gyffredinol. Mae'r Bwrdd lechyd yn cydnabod fod angen gwneud mwy o waith i ymgorffori'r 'Safonau Gofal Iechyd' yn ei weithgareddau gweithredol.
49. Mae'r gwasanaethau Archwilio Mewnol ac Archwilio Cyfalaf yn canolbwyntio mwy ar risg erbyn hyn. Mae'r gwasanaeth Archwilio Clinigol wedi'i gryfhau hefyd ac mae'n dod yn rhan annatod o'r fframwaith sicrwydd, ond mae angen ei ymgorffori mwy eto.

Mae rheolaeth risg yn datblygu ac yn mynd yn fwy soffistigedig, ond mae angen gwneud mwy i ymgorffori prosesau a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau

50. Mae'r Bwrdd lechyd wedi gwneud cryn ymdrech i gryfhau rheolaeth risg drwy hyfforddiant, cymorth a her, ac mae wedi gosod sylfeini da ar gyfer dysgu o ddigwyddiadau a chryfhau rheolaeth risg. Mae tystiolaeth hefyd fod pwyllgorau yn dod yn fwy effeithiol o ran perchenogi risgiau corfforaethol.
51. Er bod y gofrestr risgiau corfforaethol yn canolbwyntio mwy ar y risgiau corfforaethol uchel allweddol, mae prosesau rheoli risg ar lefel weithredol yn amrywio o ran aeddfedrwydd, a gallant fod yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau.

Er bod y fframwaith llywodraethu gwybodaeth wedi'i gryfhau, mae'r capasiti a seilwaith Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg sylfaenol yn cyflwyno risg gorfforaethol a gweithredol sylweddol

52. Mae'r strwythurau ategol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth, diogelwch gwybodaeth a swyddogaethau rheoli gwybodaeth a thechnoleg yn ehangach yn eu lle i raddau helaeth. Mae'r ymgysylltu â rheolwyr risg ar lefelau uwch wedi gwella, ac mae materion a risgiau'n cael eu trafod mwy a mwy ar lefel uwch.

-
53. Fodd bynnag, mae cyflymder y newid ar gyfer ffurfioli'r strategaeth, polisïau a gweithdrefnau gwybodeg a mesurau perfformiad wedi bod yn araf. Aethpwyd i'r afael i raddau helaeth â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cydymffurfio â deddfwriaeth a diogelu data, ond mae diffyg eglurder o hyd ynglŷn â chyfrifoldeb dros ddiogelwch gwybodaeth.
 54. Mae cyfyngiadau ariannu lleol a chenedlaethol ar Reoli Gwybodaeth a Thechnoleg, gan gynnwys tanfuddsoddiad cyfalaf o fewn y Bwrdd Iechyd, ac adnoddau staffio yn lleol a chenedlaethol, yn creu risg i'r Bwrdd Iechyd ac mae tensiynau yn bodoli rhwng cyflawni'n lleol a chyflawni'n genedlaethol, ac ymatebolrwydd.
 55. Rydym yn cydnabod yr heriau lu y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu, ond wrth foderneiddio'r gwasanaeth mae angen rhoi blaenoriaeth yn awr i'r agenda rheoli gwybodaeth a'i chryfhau er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r broses o newid yn effeithiol.

At ei gilydd, mae tystiolaeth o welliant cynaledig mewn perfformiad er bod angen ffocws cryfach ar ofal sylfaenol a sicrhau data o ansawdd da

56. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei fframwaith rheoli perfformiad mwy fyth ond mae'n cydnabod bod angen gwneud mwy i gryfhau rheoli perfformiad mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol. Er bod y broses adrodd ar berfformiad wedi'i gryfhau a'i fod bellach yn fwy cynhwysol ac integredig, mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod digon o ffocws ar berfformiad mewn gofal sylfaenol a gofal cymunedol.
57. Dros y pedwar i chwe mis diwethaf, gwelwyd perfformiad gwell yn cael ei gynnal mewn nifer o feysydd, gyda pherfformiad y gorau yng Nghymru yn aml, ond gan gydnabod hefyd fod lle i wella eto. Dylai'r cynlluniau i gryfhau arweinyddiaeth glinigol wella perfformiad mwy eto.
58. Fe wnaeth gwaith diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar theatrau llawdriniaeth nodi pryderon mewn ansawdd data a byddwn yn archwilio'r trefniadau ansawdd data fel rhan o adolygiad ar wahân.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd pellach o ran nifer o'i swyddogaethau 'galluogi' sy'n ei gynorthwyo i ddefnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

59. Mae fy adolygiad o'r cynnydd a wnaed yn y meysydd y nodwyd bod lle i wella arnynt yn y gwaith a wnaethom yn 2010 o ran y ffactorau sy'n galluogi defnyddio adnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus wedi canfod y canlynol:

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei drefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu a datblygu sefydliadol

60. Mae cynllun y gweithlu yn diffinio trefniant presennol gwasanaethau a'r gweithlu, a'r modd y bydd y Bwrdd Iechyd yn mynd ati i foderneiddio, ailddatblygu ac ail-gydbwysu gwasanaethau ysbyty a chymunedol llinell flaen. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod y bydd angen ailystyried cynllun y gweithlu pan fydd y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol a manylion y cynllun newid gwasanaethau wedi'u cytuno.
61. Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud llawer o ran datblygu sefydliadol gan gynnwys sefydlu'r Grŵp Llywio Diwylliannol sy'n darparu mecanwaith ar gyfer cyflawni newid diwylliannol. Mae nifer o enghreifftiau da o hyfforddi a datblygu'r gweithlu, a gwelwyd rhai trefniadau arloesol.
62. Mae dangosfwrdd y gweithlu yn darparu gwybodaeth dda am berfformiad ac mae'n dechrau cael ei ymgorffori ar lefel gorfforaethol, sirol a lefel cyfarwyddiaeth. Mae tystiolaeth bendant o berfformiad gwell gan y gweithlu, gan gynnwys lefelau salwch a recriwtio meddygol.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu ymhellach ei drefniadau ar gyfer rheoli ei sylfaen asedau, er bod angen gweithredu ymhellach mewn nifer o feysydd

63. Mae strategaeth ystadau ar waith ond bydd angen ailystyried hon yng ngolau'r Strategaeth Gwasanaethau Clinigol a gytunwyd. Cynhaliwyd adolygiad rhesymoli ystadau gan nodi derbyniadau cyfalaf ac arbedion refeniw.
64. Mae sylw'n cael ei roi i'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n creu risg uchel, er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod fod angen gwneud mwy o waith i feincnodi perfformiad ystâd y Bwrdd Iechyd.
65. Mae adolygiad o effeithlonrwydd ynni wedi nodi'r potensial i sicrhau £1 filiwn o arbedion refeniw cylchol, ond mae angen £13 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i sicrhau hyn, ac mae achos busnes gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

Mae trefniadau caffael yn gadarn, er bod y Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau pellach

66. Mae gwaith yn mynd rhagddo i godi proffil yr adran gaffael ymhellach ac i sicrhau y gwneir mwy o ddefnydd ohoni, ac i hyrwyddo mwy o ddefnydd o arferion caffael effeithiol.
67. Mae cynlluniau arbedion caffael yn eu lle, a rhagorir arnynt yn gyson. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried sut gellid defnyddio cymorth clinigol ychwanegol i sicrhau hyd yn oed mwy o arbedion effeithlonrwydd caffael.
68. Gweithia'r adran gaffael yn dda gyda sefydliadau eraill i sicrhau arbedion effeithlonrwydd trwy waith caffael ar y cyd, ond gellid gwneud mwy gyda gofal sylfaenol.

-
69. Mae gwaith wedi dechrau i gyflwyno mwy o ystyriaeth o ffactorau cynaliadwyedd a ffactorau amgylcheddol i drefniadau caffael y Bwrdd Iechyd, ond mae angen gwneud mwy o waith.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn flaenoriaeth amlwg ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran sefydlu partneriaethau gweithio i gefnogi cyflwyno gwasanaethau mewn cymunedau

70. Ceir llawer o dystiolaeth o weithio mewn partneriaeth ar waith ac wrthi'n cael eu datblygu gyda nifer o gyflawniadau arfer da, sy'n cynnwys sefydlu cytundebau Adran 33 gyda Sir Gaerfyrddin.
71. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu llwyfan ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol drwy ei ddogfen *Cydgyllunio'r Dyfodol: Rôl y Trydydd Sector mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Hywel Dda*.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i wella a chryfhau ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid er nad yw eu heffeithiolrwydd wedi'u rhoi ar brawf yn llawn eto.

72. Mae cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu wedi'i ddatblygu i gefnogi'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Gwasanaethau Clinigol.
73. Lanswyd Siarad Iechyd/Talking Health gan y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2011 – sef strategaeth ymgysylltu a chynllun gweithredol yn seiliedig ar fodel aelodaeth cadarn o ymgysylltu â defnyddwyr.
74. Mae amryw o ddulliau o ymgysylltu â chleifion ar waith neu wrthi'n cael eu hystyried, ac mae ymrwymiad clir i sicrhau bod cleifion, gofalwyr a'r trydydd sector yn llywio datblygu llwybrau cleifion.
75. Mae trefniadau ymgysylltu â chlinigwyr a staff wedi'u cryfhau, ond cydnabuwyd mai gwaith sy'n mynd rhagddo yw hwn.
76. Er bod llawer o feddwl a chynllunio wedi'u gwneud, bydd ymgysylltu â'r gymuned ynglŷn â newid gwasanaethau dros y misoedd i ddod yn dipyn o her.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw ei ddull presennol o gynnal adolygiadau o gynlluniau swyddi yn ddigon cadarn eto, ac er bod cynnydd yn cael ei wneud, nid yw rhai o fuddion bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol wedi'u gwireddu'n llawn

77. Fel rhan o'm gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau, rwyf wedi ystyried pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd y trefniadau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod buddiannau bwriadedig contract y meddygon ymgynghorol yn cael eu cyflawni. Fe wnaeth ein gwaith maes ddilyn cyfnod maith o newid sefydliadol na welwyd mo'i debyg o'r blaen, ac yn y cyd-destun hwn yr adroddom am ein canfyddiadau.

-
78. Dangosodd y gwaith hwn nad oedd y trefniadau ar gyfer cynllunio swyddi wedi bod yn ddigon cadarn, a bod nifer o anghysonderau. Roedd y Bwrdd Iechyd wedi drafftio fframwaith cynllunio a gafodd groeso gan y rhan fwyaf o feddygon ymgynghorol. Pe bai'n cael ei weithredu'n llwyddiannus, dylai'r fframwaith fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd, ond am fod y cynllun yn dal wrthi'n cael ei ddrafftio roedd yn annhebygol y byddai unrhyw fuddion yn cael eu gwireddu cyn 2011-12. Yn benodol, dyma oedd canfyddiadau'r archwiliad:
79. Nid oedd llawer o feddygon ymgynghorol wedi cael cynllun swydd yn y flwyddyn ddiwethaf:
- nid oedd unrhyw ddogfennaeth safonol i gefnogi'r gwaith o gynllunio swyddi ac o ganlyniad roedd ansawdd y cynllun swydd a'r cyfarfodydd adolygu yn amrywio cryn dipyn;
 - nid oedd data gweithgarwch yn cael ei ddefnyddio'n gyson fel rhan o gyfarfodydd adolygu cynlluniau swyddi;
 - er bod cynllunio ac arfarnu swyddi wedi bod yn gysylltiedig yn hanesyddol, roedd y cyswllt hwn yn llai amlwg ar gyfer 2010-11;
 - ni allai'r Bwrdd Iechyd ddangos tystiolaeth ei fod yn cael gwerth am arian o sesiynau Gweithgarwch Proffesiynol Cefnogol Meddygon Ymgynghorol; a
 - dim ond chwarter o gynlluniau swyddi oedd yn cynnwys canlyniadau canfyddadwy.
80. Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gwireddu'r buddion bwriadedig disgwylidig o gcontract y meddygon ymgynghorol. Nid oedd yn defnyddio trefniadau cynllunio swyddi i gefnogi cyflawni ei amcanion strategol ac ariannol, ac nid oedd eto'n defnyddio trefniadau cynllunio swyddi'n gyson i gefnogi cyflawni cynlluniau moderneiddio gwasanaethau. Nodwyd nifer o rwystrau a oedd yn atal y Bwrdd Iechyd rhag defnyddio trefniadau cynllunio swyddi yn y modd gorau, gan gynnwys:
- anawsterau parhaus o ran recriwtio meddygon ymgynghorol mewn rhai arbenigeddau;
 - er bod y trefniadau arweinyddiaeth feddygol newydd ar waith, nid oeddent wedi aeddfedu eto mewn nifer o feysydd; ac
 - roedd diffyg strategaeth gwasanaethau clinigol yn rhwystro trefniadau cynllunio swyddi mwy effeithiol yn y tymor byr.

Er bod gwella perfformiad theatr a pherfformiad llawdriniaeth dydd yn dod yn fwy o flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, mae angen gweithredu pwrpasol i wella ansawdd gwybodaeth theatr, i fynd i'r afael â meysydd perfformiad salach ac i ymateb i bryderon a godir gan staff

81. Fel rhan o'n gwaith i bennu cwmpas ar gyfer y Bwrdd Iechyd i gyflawni mwy o arbedion effeithlonrwydd rwyf wedi archwilio pa un a yw'r Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n effeithiol i gynllunio a defnyddio ei theatrau llawdriniaeth.

-
82. Tynnodd y gwaith hwn sylw at gyfleoedd i wella perfformiad theatr a pherfformiad llawdriniaeth dydd. Er bod arwyddion cynnar bod trefniadau'n cael eu cryfhau, nododd yr archwiliad yr angen i fynd i'r afael â'r materion canlynol:
- roedd nifer o ffactorau sy'n effeithio'n niweidiol ar berfformiad prif theatrau a pherfformiad theatrau llawdriniaeth dydd – er enghraifft, problemau gyda'r llif cleifion yn y theatrau a thu allan i theatrau, rhestri theatrau heb fod yn cael eu hystwytho i ddiwallu anghenion pob aelod o staff a chamgymariadau rhwng cynlluniau swyddi meddygon ymgynghorol;
 - tan yn ddiweddar nid oedd theatrau yn flaenoriaeth strategol i'r Bwrdd Iechyd ac roedd diffyg cydlyniant yn y trefniadau cynllunio;
 - roedd y staff yn hyderus ynglŷn â diogelwch ond codwyd pryderon ganddynt ynglŷn ag arweinyddiaeth, cyfathrebu a morâl, ac nid oeddent yn gadarnhaol ynglŷn â mynediad i hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau;
 - dadansoddir ac adroddir ar ddata perfformiad theatrau ar lefelau amrywiol, ond nid yw'r trefniadau hyn yn ysgogi gwelliant yn gyson eto, ac mae pryderon ynglŷn ag ansawdd data; ac
 - er bod ein data meincnod yn awgrymu bod prif theatrau a rhai theatrau dydd yn cael eu defnyddio'n gymharol dda, efallai nad yw rhai o'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu perfformiad yn gywir o gofio'r pryderon ynglŷn ag ansawdd data sydd wedi'u nodi.

Mae camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd mewn adolygiadau archwilio perfformiad blaenorol yn ymwneud â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd a gwasanaethau mamolaeth, er bod angen cynnydd pellach mewn sawl maes

83. Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf wedi gwneud gwaith archwilio dilynol i asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd o ran mynd i'r afael â phryderon ac argymhellion sy'n deillio o waith archwilio blaenorol mewn meysydd penodol lle darperir gwasanaethau. Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith dilynol yn Arddangosyn 3.

Arddangosyn 3: Cynnydd o ran gweithredu argymhellion yr archwiliad

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
Y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar gyfer Meddygon Iau	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw rotâu meddygon iau, sydd, mewn egwyddor, yn cydymffurfio â gofynion y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, er bod angen mynd i'r afael yn briodol â phryderon ynglŷn â'r effaith cysylltiedig ar ofal cleifion drwy ei drefniadau rheoli risg ac wrth gyflwyno strategaeth gwasanaethau clinigol newydd. Yn benodol, canfu'r archwiliad fel a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none">• mae pob un o rotâu meddygon iau y Bwrdd Iechyd wedi cydymffurfio, mewn egwyddor, â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd er mis Awst 2009;• mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ffyrdd gwahanol o weithio i gefnogi cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd, er bod yna bryderon ynglŷn â'r effaith ar ofal cleifion, ac mae cynnydd yn rhannol ddibynnol ar strategaeth gwasanaethau clinigol newydd;• mae trefniadau monitro rota wedi'u datblygu'n dda ar waith, er nad yw meddygon iau bob amser yn cyfranogi'n llawn yn y broses; ac• mae cyfrifoldebau ac atebolrwyddau cyffredinol am gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd yn glir er bod angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig ag oriau gweithio meddygon iau yn cael eu nodi'n briodol.

Maes y gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau allweddol yr archwiliad
<p>Gwaith Dilynol ar yr Adolygiad o Wasanaethau Mamolaeth</p>	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da o ran gwella ei wasanaethau mamolaeth; fodd bynnag, mae bodloni heriau gweithredol a strategol yn mynnu arweinyddiaeth gadarnach ac ymgysylltu cadarnach ag obstetryddion. Nodir y rhesymau am ddod i'r casgliad hwn isod:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae gwasanaethau mamolaeth yn flaenoriaeth uchel a gefnogir gan fwy o ymgysylltu â'r tîm gweithredol ac arweinyddiaeth bydwreigiaeth glir, er bod angen cryfhau'r ymgysylltu ag obstetryddion; • mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r sail dystiolaeth i gefnogi cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad, ond nid oes ganddo system gwybodaeth mamolaeth effeithiol o hyd ar draws y sefydliad; • mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu nifer o heriau o ran penderfynu dyfodol ei wasanaethau mamolaeth, ac er bod cynllunio'n mynd rhagddo'n dda, nid yw cyfeiriad strategol y gwasanaethau mamolaeth yn glir eto; • rhoddir blaenoriaeth i ofal diogel ac effeithiol ac mae safonau staffio'n cael eu bodloni i raddau helaeth, o ran niferoedd staff a sgiliau staff, a cheir gwell hyfforddiant a rheolaeth briodol o risg, er bod pryderon arbennig ynglŷn â chapasiti a chyfleusterau newyddenedigol yn Ysbyty Bronglais; ac • mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r llwybr gofal mamolaeth, gan gynnwys gwell darpariaeth gwybodaeth a gwell rheolaeth ar fwydo ar y fron, er bod arferion anghyson a chyfraddau uchel o Doriadau Cesaraid yn parhau'n fater dadleuol.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – y Bwrdd Iechyd	Mehefin 2011
Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Bwrdd Iechyd	Mehefin 2011
Barn ar ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	Awst 2011
Barn ar y Datganiadau Ariannol Cryno	Medi 2011
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol – Cronfeydd Elusennol	Tachwedd 2011
Barn ar Ddatganiadau Ariannol y Cronfeydd Elusennol	Tachwedd 2011
Adroddiadau archwilio perfformiad (blwyddyn yr amlinelliad o'r archwiliad)	
Moderneiddio Tâl: Contract Ymgynghorwyr y GIG (2009)	Chwefror 2011
Gwaith Dilydol ar Adolygiad y Gwasanaethau Mamolaeth	Gorffennaf 2011
Gwaith Dilydol ar y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith (2010)	Gorffennaf 2011
Theatrau Llawdriniaeth a Llawdriniaeth Achosion Dydd (2010)	Tachwedd 2011
Gwaith Dilydol Rhagarweiniol ar Ofal heb ei Drefnu (2010)	Tachwedd 2011
Asesiad Strwythuredig – Gwaith Dilydol ar Drefniadau Corfforaethol (cyflwyniad) (2011)	Tachwedd 2011
Adroddiadau eraill	
Amlinelliad o Waith Archwilio 2011	Mehefin 2011

Mae nifer o archwiliadau o berfformiad 2011 sy'n dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd. Dangosir y rhain isod, gyda dyddiadau cwblhau amcangyfrifedig.

Adroddiad	Dyddiad cwblhau amcangyfrifedig
Parhad Busnes/Adfer mewn Argyfwng	Ionawr 2012
Ansawdd Data	Ionawr 2012
Rheoli Cyflyrau Cronig	Ionawr 2012
Gofal heb ei Drefnu – Gwaith Dilydol Manwl	Ionawr 2012
Ymgysylltu Clinigol	Ionawr 2012
Adolygiad o Waith Dilydol ar Sicrwydd Gwybodaeth	Ionawr 2012

Atodiad 2

Ffi archwilio

Nododd yr Amlinelliad o Waith Archwilio ar gyfer 2011 y ffi archwilio arfaethedig o £418,225 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr Amlinelliad.

Yn ogystal â'r ffi a nodir uchod, roedd y ffi am y gwaith archwilio a wnaed o ran y gwasanaethau a rennir a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Busnes yn £15,871.

Yn ystod y flwyddyn, adolygais y gwaith archwilio perfformiad yn Strategaeth Archwilio 2010 a oedd heb ei wneud o hyd. Arweiniodd hyn at ad-daliad o £42,420 (heb gynnwys TAW) o ffi archwilio cyn-2010 a 2010. Dangosir y prosiectau archwilio perfformiad yr effeithiwyd arnynt isod.

Pwnc	Statws
Gofal Iechyd Parhaus	Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd.
Archwiliad lleol amhenodol	Daethpwyd i gytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd i ganslo'r gwaith hwn oherwydd llwyth gwaith perfformiad arall sy'n mynd rhagddo.
Gwaith dilynol ar ganfyddiadau archwiliad blaenorol – Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o'm rhaglen o archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol ar gyfer 2011-12. Mae'r gyfran o ffi archwilio 2010 wedi'i chynnwys yn yr ad-daliad i'r Bwrdd Iechyd.
Adfer ar ôl Trychineb TGCh/ Parhad Busnes	Mae'r gwaith hwn yn parhau ond caiff ei ariannu bellach o ffi 2011. Mae'r gyfran o ffi perfformiad 2010 sy'n ymwneud â'r gwaith hwn wedi'i had-dalu. Er mwyn cynnwys hyn yn rhaglen 2011, ystyrir cynnwys y gwaith o weithredu gofynion Caldicott, fel yr amlinellwyd yn ein cynllun ar gyfer 2011, yn ein rhaglen ar gyfer 2012.



WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Ffôn: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Ffacs: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk

E-bost: info@wao.gov.uk

Website: www.wao.gov.uk

Gwefan: www.wao.gov.uk